Together for Children and Young People

Law yn Llaw at Blant A Phobl Ifanc

**Improving the emotional and mental health of children and young people in Wales**

**Mae gwella iechyd emosiyonal a meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru**

**CYLCHLYTHYR #1**
**AWST 2015**

# "CROESO I RAGLEN WELLA LAW YN LLAW AT BLANT A PHOBL IFANC"

Mae'r cylchlythyr cyntaf hwn yn rhoi cyflwyniad I Raglen Genedlaethol *'Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc,* a'r hyn y byddwn yn ceisio ei gyflawni yn y dyfodol. Gobeithiwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddwn yn croesawu unrhyw adborth a allai fod gennych.

Rydym yn cyhoeddi cylchlythyrau yn rheolaidd, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein syniadau a rhoi cyfle i chi ddylanwadu ar ein cynigion wrth iddynt ddatblygu. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost at kathryn.davies18@wales.nhs.uk

## BETH YW'R RHAGLEN LAW YN LLAW AT BLANT A PHOBL IFANC?

Mae Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn rhaglen aml-broffesiynol ac aml-asiantaeth sy'n ceisio gwella'r gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol sy'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Cafodd y rhaglen ei lansio ddiwedd Chwefror 2015, ac mae'n cael ei harwain gan y GIG yng Nghymru gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae adolygiadau blaenorol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yng Nghymru wedi nodi bod y gwasanaeth o dan fwy o bwysau nac erioed o'r blaen ac, er gwaethaf buddsoddiad a staff ychwanegol, nid yw'r gwasanaeth yn gallu diwallu'r galw. Dros y 4 blynedd ddiwethaf gwelwyd cynnydd o 100% mewn atgyfeiriadau at CAMHS. Nid oes angen ymyriadau arbenigol iawn ar nifer o'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu hasesu, ond maent yn ychwanegu at yr amseroedd aros i'r plant a phobl ifanc sydd angen cymorth o'r fath.

Rydym eisiau newid hyn drwy wneud yn siŵr bod plant sydd angen gwasanaethau arbenigol CAMHS yn derbyn y gwasanaeth yn amserol. Mae'r gallu i nodi'n gynnar lle gallai fod angen ychwanegol am gymorth yn hollbwysig. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod llwybrau eraill clir ar gael i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau llai difrifol drwy ofal sylfaenol, neu gan ddarparwyr eraill, mewn dull sydd yr un mor amserol a phriodol.

Mae gwasanaethau iechyd a lles meddyliol emosiynol yn cael eu darparu gan ystod eang o sefydliadau statudol a sefydliadau'r trydydd sector. Bydd gweithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y rhain yn elfen ganolog o'n gwaith.

## BETH YW PRIF NODAU'R RHAGLEN?

Byddwn yn:

- darparu arweinyddiaeth, cyfeiriad a chefnogaeth strategol i sicrhau y gellir cyflawni gwasanaethau o safon uchel;
- gwneud yn siŵr bod newidiadau gwirioneddol yn cael eu cyflawni yn brydlon ar hyd a lled Cymru;
- sicrhau bod gwasanaethau emosiynol ac iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu cyflawni yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

## SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN?

Mae Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn defnyddio'r Model Ffenestr Flaen er mwyn crynhoi ei syniadau. Mae hyn yn dangos sut mae ystod eang o wasanaethau yn darparu continwwm o gefnogaeth i blant a theuluoedd. Mae pwyslais parhaus ar iechyd a lles emosiynol, meddyliol yn hollbwysig er mwyn i wasanaethau allu nodi'n gynnar lle y gallai fod angen cymorth ychwanegol.




[Prevention] Atal

[Protection] Diogelwch

[Remedy] Ateb

[Families with no additional needs....] Teuluoedd Heb Anghenion Ychwanegol. Derbyn Gwasanaethau Cyffredinol e.e. ysgol, gofal iechyd

[Families with additional needs....] Teuluoedd Gydag Anghenion Ychwanegol

Derbyn adnoddau wedi'u targedu ar gyfer angen unigol neu anghenion niferus
E.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol neu driwantiaeth mewn ysgolion neu'n wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod
[Families with complex needs....] Teuluoedd Gydag Anghenion Cymhleth
Rydym wedi trefnu llifoedd gwaith i gyflawni gwaith manwl ar draws y model cyfan hwn. Mae'n edrych ar yr ystod lawn o gymorth sydd ei angen ar blant a'u teuluoedd. Bydd y llifoedd gwaith yn canolbwyntio ar:

- Blynyddoedd cynnar, gwytnwch a lles
- Ymyrraeth gynnar a chymorth gwell
- Anableddau iechyd meddwl/dysgu niwroddatblygiadol a chyd-glefydol
- Llwybr arbenigol CAMHS

Byddwn hefyd yn ystyried anghenion y gweithlu, addysg a hyfforddiant ar draws y rhaglen gyfan a'r pwyntiau pontio gofal i blant a phobl ifanc ar gamau gwahanol o'r llwybr. Mae ein cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn adolygu eu tystiolaeth ddiweddaraf o Asesiadau o Anghenion.

---

## PWY FYDD YN CYMRYD RHAN?

**BWRDD Y RHAGLEN**

Mae Bwrdd y Rhaglen yn dîm bychan o uwch arweinwyr o'r sector statudol a'r trydydd sector. Byddant yn darparu arweinyddiaeth, cyfeiriad a chefnogaeth i bob sefydliad partneriaeth er mwyn datblygu Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.



Cadeirydd y Bwrdd yw Carol Shillabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd addysgu Powys. Cofrestrodd Carol fel nyrs ym 1990 ac mae wedi bod yn gweithio mewn nifer o uwch rolau clinigol a rheoli yn GIG Cymru. Mae hefyd yn aelod o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.



Mae'r Athro y Fonesig Sue Bailey, OBE, DBE, Cadeirydd Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru ac aelod o Dasglu Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Lloegr, yn darparu cyngor ac elfen graffu arbenigol i'n helpu i gyflawni ein gwaith. Bydd yn cadeirio 'Grŵp Cyfeirio Arbenigol' bychan gydag uwch aelodau o

strwythurau cynghori presennol a fforymau partneriaeth rhwydweithiau. Bydd hyn yn sicrhau bod popeth a wnawn yn berthnasol ac yn addas i'r diben.
Mae rhestr lawn o aelodau Bwrdd y Rhaglen ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Y byrddau iechyd a'r darparwyr o sectorau eraill fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflenwi'r gwasanaethau. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda phob asiantaeth er mwyn ysgogi newidiadau. Cynhaliodd Bwrdd y Rhaglen ei gyfarfod cyntaf ym mis **Mehefin eleni.**

**YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID**

Rhoddir cyfle i Blant a Phobl Ifanc ddatblygu a llywio'r ffordd y bydd gwasanaethau emosiynol ac iechyd meddwl yn cael eu cyflenwi yn y dyfodol. Gwneir hyn drwy ddull ymgysylltu cyffredinol sy'n ystyried lles pob plentyn ac nid dim ond y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau CAMHS. Byddwn yn gweithio'n agos gyda swyddfa'r Comisiynydd Plant, Plant yng Nghymru a 'Chyd-fenter Anghenion Uchel' y trydydd sector i sicrhau ein bod yn derbyn cyfraniadau parhaus gan blant a phobl ifanc, a phrofi a herio ein ffordd o feddwl wrth iddo ddatblygu.

Mae cronfa ddata o randdeiliaid yn cael ei chreu ac mae ar gael ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Os credwch ein bod wedi anghofio cynnwys rhywun, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu eu cynnwys yn y dyfodol.

## BETH YW EIN BLAENORIAETHAU?

Ar 22 Mehefin 2015 fe wnaethom gynnal digwyddiad 'Gwirio a Herio' i'n helpu i lunio ein **'Fframwaith ar gyfer Gweithredu'.** Daeth unigolion ynghyd o'r gwasanaethau iechyd, addysg a'r trydydd sector i gymryd rhan mewn grwpiau gweithdy i drafod y llwybr gofal ac edrych ar y camau gweithredu y mae angen i ni eu datblygu dros y 12 mis nesaf i gyflawni newidiadau gwirioneddol.

Fe arweiniodd hyn at gytuno ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer pob un o'n llifoedd gwaith, sef:

***Y Blynyddoedd Cynnar a Gwytnwch Pobl Ifanc:***

- Ymagweddau ysgolion cyfan ar gyfer hybu iechyd a lles meddyliol
- Problemau ymlyniad i famau gyda phroblemau amenedigol
- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol ar draws y sector statudol a'r trydydd sector ym maes datblygiad ac iechyd meddwl plant
- Cymorth y Blynyddoedd Cynnar

***Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Estynedig:***

- Nodi'r bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r risg o ddatblygu salwch meddwl difrifol, yn cynnwys seicosis, anhwylderau bwyta difrifol neu hunan-niwed difrifol
- Gwasanaethau ar draws sectorau, gyda phwyslais ar gefnogaeth gynnar
- Cymorth i'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal

***Materion Niwroddatblygiadol ac Anableddau Iechyd Meddwl a Dysgu Cyd-glefydol***

- Dealltwriaeth well o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio (ADHD)/Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) ar draws pob asiantaeth
- Llwybrau gofal wedi'u teilwra ar gyfer unigolion ag ADHD/ASD
- Mynediad amserol i'r rhai sydd angen asesiad a gwasanaethau triniaeth arbenigol
- Uno sgiliau'r gwasanaethau iechyd meddwl, pediatreg, therapyddion ac Anableddau Dysgu

***Llwybr CAMHS Arbenigol:***

- Gofal argyfwng a darpariaeth y tu allan i oriau agor arferol
- Gweithio ar draws y sectorau er mwyn darparu'r gofal gorau posibl i wella canlyniadau
- Ymyrraeth gynnar i bobl ifanc â seicosis
- Therapïau ar agweddau seicolegol yn seiliedig ar dystiolaeth

---

## CYLLID YCHWANEGOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi buddsoddiad blynyddol ychwanegol sylweddol o **£7.65 miliwn** yn ddiweddar ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 18% i'r cyllid. Mae wedi'i rannu i sicrhau bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn derbyn y cymorth cywir, ar yr adeg gywir.

- Bydd £2.7 miliwn yn helpu datblygiadau arbenigol CAMHS, yn cynnwys gwella ymatebion mewn adrannau brys ac ar adegau o argyfwng.

- £1.1 miliwn i ehangu'r mynediad at therapïau seicolegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bobl ifanc

- £800,000 i wella'r ddarpariaeth mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol ac atal atgyfeiriadau diangen at wasanaethau arbenigol.

- £800,000 i sicrhau bod gwasanaethau'n ymyrryd yn gynnar i wella'r gofal a roddir i bobl ifanc (14-25 oed) sy'n datblygu seicosis.

- £250,000 i wella'r gwasanaethau ar gyfer y bobl ifanc mwyaf agored i niwed sydd eisoes yn y system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ymuno â'r system.

- £2 filiwn i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer problemau niwroddatblygiadol, yn cynnwys ADHS ac ASD.

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl gweld gwelliannau gwirioneddol i'r mynediad at wasanaethau a gostyngiad mewn amseroedd aros i'r plant hynny ag anghenion niwroddatblygiadol ac arbenigol CAMHS erbyn diwedd Rhagfyr 2015, gyda:

- Pob asesiad arbenigol brys CAMHS yn cael eu cynnal o fewn 48 awr, erbyn diwedd Hydref 2015
- Pob asesiad arbenigol arferol CAMHS yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod, erbyn 1 Ebrill 2016.

Mae byrddau iechyd yn paratoi i gyflwyno cynigion i'w cymeradwyo. Maent yn cael eu hannog i gydweithio mewn meysydd arbenigol iawn, neu pan fydd galw a/neu adnoddau staff lleol yn brin. Bydd cynigion ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth yn y tymor hwy yn cael eu cadarnhau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol yn unol â blaenoriaethau Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

## DATBLYGIADAU DIWEDDAR

Yn y chwe mis diwethaf:

- Rydym wedi datblygu ein fframwaith ar gyfer gweithredu
- Rydym wedi cynnal archwiliad gwaelodlin o wasanaethau arbenigol CAMHS gyda phob bwrdd iechyd
- Cyflwynwyd Fframwaith Comisiynu Cymru Gyfan ar gyfer lleoliadau arbenigol CAMHS yn y sector annibynnol
- Mae Timau Allgymorth Grymusol wedi'u datblygu ym mhob ardal bwrdd iechyd

---

## AELODAETH BWRDD Y RHAGLEN

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd y GIG (Cadeirydd) | Carol Shillabeer, Bwrdd Iechyd addysgu Powys |
| Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol | Yr Athro y Fonesig Sue Bailey, OBE DBE |
| Cynrychiolydd y Trydydd Sector | Catriona Williams OBE, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru |
| Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru | Julie Bishop, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru/Meddyg Ymgynghorol Iechyd Cyhoeddus |
| Gwasanaethau Iechyd Arbenigol GIG Cymru | Dan Phillips, Cyfarwyddwr Dros Dro |
| Cynrychiolydd Paediatregydd | Dr Catherine Norton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Addysg | Nichola Jones, Pennaeth Cynhwysiant, Cyngor Sir Benfro |
| Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Jenny Williams, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynrychiolydd Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru | Dr Dave Williams, Cynghorydd CAMHS |
| Cyfarwyddwr Rhaglen | Siân Richards |
| Rheolwr Rhaglen | Kathryn Davies |

## RHANDDEILIAID

- Gweithredu dros Blant
- Adopt Cymru
- Autism Cymru
- Barnardo’s Cymru
- Beat (beat eating disorders)
- Bi-Polar UK
- Plant yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Timau Cymunedau yn Gyntaf
- Cynghorau Iechyd Cymuned
- Cyngor Cynghorau Gwirfoddol
- DACW(Drug and Alcohol Charities Wales)
- Diverse Cymru
- Timau Teuluoedd yn Gyntaf
- Timau Dechrau’n Deg
- Gingerbread
- Hafal
- Headway
- Headmeds
- Byrddau Iechyd
- Cyd-Fenter Anghenion Uchel (‘Gwneud Synnwyr’)
- Homestart
- Cymdeithasau Tai
- Anabledd Dysgu Cymru
- Awdurdodau Lleol – Addysg
- Awdurdodau Lleol – Gwasanaethau Cymdeithasol
- Mental Health Action Wales
- Mental Health Foundation (Blynyddoedd Cynnar)
- Mind Cymru (‘Two in Mind’)
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru
- National Autistic Society (NAS)
- National Youth Advocacy Services
- NSPCC
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (Cyfiawnder Ieuenctid)
- Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Rekindle (Prosiect Small Steps)
- Y Samariaid
- SNAP Cymru
- Solas
- The Family Place
- The Place2Be
- Tros Gynnal Plant
- Llysgenhadon Ifanc Cymru
- Young Carers’ Trust
- Young Minds
- Youth Cymru
- Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru
- Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc
- Llywodraeth Cymru